WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Wales Audit Office / Swyddfa Archwilio Cymru

24 Cathedral Road / 24 Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 2032 0500
Fax / Ffacs: 029 2032 0600
Textphone / Ffôn testun: 029 2032 0660
info@audit.wales / post@archwilio.cymru
www.audit.wales / www.archwilio.cymru

Please contact us in Welsh or English.

Cysylltwch â ni'n Gymraeg neu'n Saesneg.

Y Cynghorydd Huw David
Yr Arweinydd
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Swyddfeydd Dinesig
Stryd yr Angel
Pen-y-bont ar Ogwr
CF31 4WB

**Cyfeirnod:** 286A2017-18

**Dyddiad cyhoeddi:** 30 Tachwedd 2017

Annwyl Gynghorydd Davies

# Llythyr Archwilio Blynyddol – Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr 2016-17

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi'r negeseuon allweddol sy'n deillio o'm cyfrifoldebau statudol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a'm cyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio.

## Cydymffurfiodd y Cyngor â'i gyfrifoldebau yn ymwneud ag adroddiadau ariannol a defnyddio adnoddau

Cyfrifoldeb y Cyngor yw:

- rhoi systemau rheolaeth fewnol ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion a sicrhau bod ei asedau'n ddiogel;
- cadw cofnodion cyfrifyddu cywir;
- paratoi Datganiad Cyfrifon yn unol â gofynion perthnasol; a
- sefydlu ac adolygu'n barhaus drefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

- roi barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;

- adolygu trefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau; a
- rhoi tystysgrif yn cadarnhau fy mod wedi cwblhau'r broses o archwilio'r cyfrifon.

Mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn paratoi eu datganiadau cyfrifyddu yn unol â gofynion Cod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig. Mae'r Cod hwn yn seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol.

Ar 29 Medi 2017, rhoddais farn archwilio ddiamod ar ddatganiadau cyfrifyddu 2016-17, gan gadarnhau eu bod yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol a thrafodion y Cyngor. Mae fy adroddiad wedi'i gynnwys yn y Datganiad Cyfrifon. Nodwyd y materion allweddol a oedd yn deillio o'r archwiliad o gyfrifon i aelodau Pwyllgor Archwilio'r Cyngor ar 28 Medi 2017 yn fy adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol.

Yn yr adroddiad hwn gwnes gadarnhau bod y cyfrifon drafft a'r cofnodion cysylltiedig a gyflwynwyd i'w harchwilio o safon dda yn gyffredinol, ac y bu gwelliant ers y flwyddyn flaenorol.

## Rwy'n fodlon bod gan y Cyngor drefniadau priodol ar waith i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau

Mae fy ystyriaeth o drefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wedi bod yn seiliedig ar y gwaith archwilio a wnaed ar y cyfrifon ac rwyf hefyd wedi dibynnu ar y gwaith a gwblhawyd o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Rwy'n fodlon bod gan y Cyngor drefniadau priodol ar waith i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau, er, ym mis Medi 2017, nodais y meysydd i'w gwella yn fy Adroddiad Gwella Blynyddol.[1]

Ar 29 Medi 2017 cyhoeddais dystysgrif yn cadarnhau bod yr archwiliad wedi'i gwblhau.

Disgwyliaf i'r ffi archwilio ariannol fod fel yr oedd yn y Cynllun Archwilio.

Yn gywir



Derwyn Owen
**Dros ac ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru**

copi i. Darren Mepham, Prif Swyddog Gweithredol
Randal Hemingway, Pennaeth Cyllid a Swyddog Adran 151

---

[1] Swyddfa Archwilio Cymru, **Adroddiad Gwella Blynyddol Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr**, Medi 2017